## RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod rhithwir o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 29 Tachwedd 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Iau, 2 Rhagfyr 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 9 Rhagfyr 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 10 Rhagfyr 2021.

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Richard A Dew, Llinos M Huws (Cadeirydd), Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bob Parry OBE FRAgS, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Dylan Rees, Dafydd Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Dim

10.00am – 11.45am

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2021 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL? | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Gorffennaf 2022, fel y'i cyflwynwyd, gan nodi fod y Flaen Raglen Waith yn cael ei diweddaru bob mis a'i chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel eitem sefydlog.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL? | **Dim** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2, 2021/22**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>**Derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio am Ch2 2021/22, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru fel y'u nodir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Nodi meysydd sy'n tanberfformio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL? | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo cyhoeddi Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-21: Adroddiad Asesu (drafft) ar y wefan gorfforaethol.**<br>• **Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-26 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol i wneud unrhyw adolygu pellach o'r strategaeth ddrafft cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor dim hwyrach na 31 Rhagfyr 2021.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â gofynion statudol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes, mewn perthynas â'r pwynt bwled cyntaf yn unig, gan fod rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 2, 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yn hyn a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa'n ddibynnol ar dderbyn cymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled ariannol a'r costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r Coronafeirws.** |

| | |
|---|---|
| | • **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**<br>• **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**<br>• **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2021/22** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf – Chwarter 2, 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 yn Chwarter 2.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf 2021/22** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 2, 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2021/22.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb y CRT 2021/22** |

| | |
|---|---|
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fydd yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r Grant Cymorth Refeniw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ariannol 2022/23, sef 31,079.93 (Rhan E6 o Atodiad A yr adroddiad).**<br>• **Cymeradwyo'r cyfrifiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 at ddibenion pennu Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer yr ardal gyfan a rhannau ohoni am y flwyddyn 2022/23 (Rhan E5 o Atodiad A yr adroddiad)**<br>• **Yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995, fel y cawsant eu diwygio gan SI1999/2935, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2016, y cyfansymiau y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi eu cyfrifo fel sylfaen y dreth am y flwyddyn 2022/23 yw 32,042.00, ac fel y nodir yn nhabl 3 yr adroddiad ar gyfer y rhannau o'r ardal a restrir ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Galluogi'r Cyngor Llawn i bennu'r gofynion o ran ei Dreth Gyngor i gwrdd â'r gyllideb a gymeradwywyd ganddo ar gyfer 2022/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |

| | |
|---|---|
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Cynllun Trosiannol**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn mabwysiadu'r Cynllun Trosiannol a fydd yn darparu fframwaith gweithredol i Swyddogion gyflawni amcanion strategol allweddol trwy gamau gweithredu diffiniedig yn ystod cyfnod adfer yr Ynys yn union ar ôl y pandemig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Darparu sicrwydd a chyfeiriad yn ystod y cyfnod yn union ar ôl y pandemig.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Cynllun Trosiannol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol:-**<br>• **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032.**<br>• **Diffiniad o rôl y Cydlynwyr Iaith Dalgylch.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio, i gwblhau unrhyw adolygiadau pellach o'r strategaeth ddrafft.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â deddfwriaeth** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |

| | |
|---|---|
| YMGYNGORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Datganiad o Bolisi Gamblo 2022-2025**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn mabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo ar gyfer 2022-25.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â deddfwriaeth** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Gamblo.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **14 Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cefnogi a mabwysiadu'n ffurfiol y Strategaeth Cyfraniadau Buddion Cymunedol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn addas i bwrpas a'i bod yn adlewyrchu'r sefyllfa Ddiweddaraf o ran polisi a deddfwriaeth** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| A RODDWYD CANIATÂD ARBENNIG? | **Na** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn yr adroddiad** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |